# Gwybodaeth Gefndir a Hanes y Prosiect
# Background Information and Project History

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddenu buddsoddiad i Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan, sy'n cynnwys Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan. Er mwyn denu buddsoddiad newydd, yn ogystal â pharhau i wasanaethu busnesau presennol, mae angen gwella mynediad ati.


Yn ogystal, er y ceir mynediad at y Parc Busnes Awyrofod drwy safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar hyn o bryd drwy Borth y Gorllewin, efallai na fydd y trefniant hwn yn ymarferol ar ôl 2019 oherwydd cyfyngiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Felly, mae angen dewis arall addas.

Archwiliwyd amrywiaeth o opsiynau. Ystyrir mai'r Ffordd Fynediad Ogleddol yw'r opsiwn dewisol.

The Welsh Government is committed to attracting investment to the Cardiff Airport and St. Athan Enterprise Zone, which includes the St. Athan Aerospace Business Park. In order to attract new investment, as well as to continue to serve existing businesses, access needs to be improved.

One important factor is that whilst the Aerospace Business Park is currently accessed through the MoD camp via West Gate, this arrangement may no longer be viable after 2019 due to MoD restrictions. Therefore a suitable alternative is required.

Various options have been examined and the Northern Access Road is considered to be the preferred option.




## Hanes y Prosiect

Cafodd cynigion ar gyfer datblygiad mawr yn Sain Tathan ganiatâd cynllunio amlinellol yn 2009 ar gyfer cynllun defnydd cymysg, wedi'i arwain gan adnewyddu, a oedd yn cynnwys datblygu'r safle presennol a'r tir cyfagos yn sylweddol. Y diben oedd darparu Coleg Technegol Amddiffyn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn a Pharc Busnes Awyrofod ar gyfer Llywodraeth Cymru, tra y byddai rhan o'r safle, sef Gwersyll y Gorllewin, yn parhau'n ganolfan filwrol weithredol.

Roedd angen ffordd fynediad newydd ar y datblygiadau hyn oddi ar y B4265, y cyfeirir ati fel y Ffordd Fynediad Ogleddol. Cafodd y prosiectau cyfunol ganiatâd cynllunio amlinellol ym mis Rhagfyr 2009 ac, ar yr un pryd, rhoddwyd caniatâd manwl ar gyfer y Ffordd Fynediad Ogleddol.

Ni aeth y Coleg Technegol Amddiffyn rhagddo ac, ers hynny, mae'r caniatâd cynllunio wedi dod i ben. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Parc Busnes Awyrofod o hyd, ac ystyrir bod y Ffordd Fynediad Ogleddol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r manteision economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Ardal Fenter. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio newydd ar gyfer y Ffordd Fynediad Ogleddol yn 2017.

## Pwy fydd yn Defnyddio'r Ffordd Newydd?

Bydd y Ffordd Fynediad Ogleddol yn gwasanaethu datblygiadau presennol ac arfaethedig yn Sain Tathan, gan gynnwys:

- Y Parc Busnes Awyrofod, sy'n llenwi rhan fawr o hen wersyll y Llu Awyr Brenhinol, gan gynnwys y rhedfa weithredol;
- Y cyfleuster cynhyrchu arfaethedig ar gyfer ceir Aston Martin, a fydd yn defnyddio'r uwch-awyrendy presennol; a
- Datblygiad preswyl arfaethedig ar dir i'r de o'r Ffordd Fynediad Ogleddol arfaethedig.

Ni fydd y Ffordd Fynediad Ogleddol yn gwasanaethu gwersyll y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan, a fydd yn parhau i gael ei wasanaethu gan ei ffordd fynediad bresennol, sef y Brif Fynedfa.

## Amserlenni

Disgwylir i'r ffordd newydd agor yn 2019. Mae'r rhaglen arfaethedig wedi'i chrynhoi isod:

- 2016 – Dylunio
- 2017 – Cyflwyno cais cynllunio
- 2017 – Phenodi contractwr
- 2018 – Adeiladu
- 2019 – Ffordd yn agor

## Project History

Proposals for major development at St. Athan received outline planning permission in 2009 for a mixed-use, regeneration-led scheme, involving substantial new development of the existing site and the adjoining land. The purpose was to provide a Defence Technical College for the MoD and an Aerospace Business Park for the Welsh Government, whilst part of the site, West Camp, was to remain as an operational military base.

These developments required a new access road off the B4265, referred to as the Northern Access Road. The combined projects received outline planning permission in December 2009 and at the same time detailed permission was granted for the Northern Access Road.

The Defence Technical College did not proceed and the planning permissions have since expired. Nevertheless, the Welsh Government remains committed to the Aerospace Business Park and the Northern Access Road is considered essential in order to deliver the economic and social benefits associated with the Enterprise Zone. Accordingly, the Welsh Government intends to submit a new planning application for the Northern Access Road in 2017.

## Who will be Using the New Road?

The Northern Access Road will serve existing and proposed development at St. Athan including:

- The Aerospace Business Park which occupies a large part of the former RAF camp, including the operational runway;
- The existing super hangar building which will be used by Aston Martin; and
- Proposed residential development on land lying south of the proposed Northern Access Road.

The Northern Access Road will not serve the MoD camp at St. Athan, which will continue to be served via its existing access road at West Gate.

## Timescales

The new road is expected to open in 2019. The proposed programme is summarised below:

- 2016 – Design
- 2017 – Submit planning application
- 2017 – Appoint contractor
- 2018 – Construction
- 2019 – Road opens